# Fframwaith cymwyseddau iaith ar gyfer ymarferwyr addysg

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

| Lefel-Codau* | Dim sgiliau-W1 | Cyn-fynediad-Defnydd HCA yn unig | A1/Mynediad-W2 | A2/Sylfaen-W3 | B1/Canolradd-W4 | B2/Uwch-W5 | C1/Hyfedredd-W6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwrando** | Dim sgiliau. | Rwy'n gallu deall ac ymateb i gyfarchion, cwestiynau a geirfa syml a ddefnyddir yn gyson yng nghyd-destun yr ysgol gyfan. | Rwy'n gallu deall ac ymateb i frawddegau syml pob dydd, sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol, pan fydd y siarad yn bwyllog. | Rwy'n gallu deall ac ymateb i amrediad o frawddegau syml sy'n ymwneud â sefyllfaoedd sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol, e.e. *themâu pob dydd ac amseroedd gwahanol y ferf*. | Rwy'n gallu deall ac ymateb i brif bwyntiau pan fydd rhywun yn siarad yn naturiol am bynciau pob dydd o fewn a thu allan i'r ysgol, e.e. *mewn sgwrs neu mewn sefyllfaoedd grŵp bach*. | Rwy'n gallu deall y rhan fwyaf o drafodaethau, hyd yn oed am bynciau anghyfarwydd ac arbenigol, e.e. *mewn cyd-destun ffurfiol*. | Rwy'n gallu deall ac ymateb i bron popeth sy'n cael ei glywed, gan gynnwys gwahanol acenion, tafodieithoedd a chyflymder y siaradwr. |
| **Llafar** | Dim sgiliau. | Rwy'n gallu ynganu'r wyddor a dweud geiriau syml yn ddigon cywir yng nghyd-destun yr ysgol.<br>Rwy'n gallu cyflwyno fy hun a dechrau rhyngweithio'n gymdeithasol trwy ddefnyddio ymadroddion pob dydd cyfarwydd, e.e. *cyfarchion, diolch, canmol dysgwr a rhoi gorchmynion syml*. | Rwy'n gallu cyflwyno fy hun ac eraill ar lafar.<br>Rwy'n gallu gofyn ac ateb cwestiynau am wybodaeth syml, e.e. *ble mae rhywun yn byw, beth maen nhw'n hoffi ei wneud*.<br>Rwy'n gallu defnyddio amseroedd y ferf a rhifau. | Rwy'n gallu cyfrannu at sgwrs syml gan ddefnyddio amrediad o frawddegau syml sy'n ymwneud â sefyllfaoedd sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol, e.e. *themâu pob dydd ac amseroedd gwahanol y ferf*. | Rwy'n gallu cynnal a chyfrannu at sgwrs am bynciau cyfarwydd sy'n ymwneud â'r ysgol a bywyd pob dydd gan ddefnyddio amrywiaeth o frawddegau syml a chymhleth.<br>Rwy'n gallu disgrifio profiadau a gobeithion, ac yn gallu rhoi esboniadau cryno dros fy marn.<br>Rwy'n dechrau adnabod gwallau cyffredin. | Rwy'n gallu cyfathrebu gan ddefnyddio ystod o gystrawennau sy'n dangos lefel gynyddol o gywirdeb.<br>Rwy'n gallu trafod pynciau anghyfarwydd ac arbenigol.<br>Rwy'n gallu mynegi a chyfiawnhau barn.<br>Rwy'n gallu adnabod rhai gwallau a'u cywiro. | Rwy'n gallu siarad yn estynedig am faterion cymhleth, ac yn gallu cyflwyno dadleuon gan ddefnyddio'r cywair priodol.<br>Rwy'n gallu rhyngweithio ac arwain trafodaethau a sesiynau addysgu estynedig yn gywir gan amlaf.<br>Rwy'n gallu hunangywiro lle bo angen. |
| **Darllen** | Dim sgiliau. | Rwy'n gallu deall cyfarchion a gorchmynion syml.<br>Rwy'n gallu darllen unrhyw ymadroddion a ddefnyddir mewn testun syml.<br>Rwy'n gallu deall manylion personol elfennol iawn, e.e. *enw a chyfeiriad*. | Rwy'n gallu deall testunau ysgrifenedig byr iawn lle mae pobl yn rhoi gwybodaeth bersonol syml amdanyn nhw eu hunain neu eraill, e.e. *ffurflenni, arwyddion yr ysgol*.<br>Rwy'n gallu darllen gorchmynion sy'n addas i gyd-destun yr ysgol. | Rwy'n gallu deall negeseuon ysgrifenedig am bethau bob dydd a llythyron/e-byst syml.<br>Rwy'n gallu darllen straeon syml ar goedd gydag ymgais i ynganu'n gywir. | Rwy'n gallu deall erthyglau neu e-byst uniongyrchol am bynciau pob dydd neu bynciau'n ymwneud â'r gwaith.<br>Rwy'n gallu darllen straeon ar goedd gan ynganu'n gywir ar y cyfan. | Rwy'n gallu deall y rhan fwyaf o ohebiaeth, erthyglau papur newydd ac adroddiadau sydd wedi eu bwriadu ar gyfer siaradwyr rhugl, gyda chymorth geiriadur, ac yn gallu llithr ddarllen (sganio) trwy destunau hir i gael hyd i fanylion.<br>Rwy'n gallu darllen straeon ar goedd yn eithaf hyderus ac ynganu'n gywir. | Rwy'n gallu crynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau llafar ac ysgrifenedig, ac ail-greu dadleuon a disgrifiadau mewn cyflwyniad cydlynus.<br>Rwy'n gallu darllen straeon ar goedd i ddysgwyr o bob oedran yn hyderus ac ystyrlon. |
| **Ysgrifennu** | Dim sgiliau. | Rwy'n gallu ysgrifennu geirfa syml a ddefnyddir yn gyson yng nghyd-destun yr ysgol gyfan yn gywir. | Rwy'n gallu ysgrifennu brawddegau syml pob dydd, sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol, e.e. *cyfarwyddiadau, cwestiynau, gorchmynion, adborth syml*. | Rwy'n gallu ysgrifennu brawddegau cyfansawdd/cymhleth at ddibenion addysgol. | Rwy'n gallu ysgrifennu paragraffau byr am bynciau bob dydd o fewn a thu allan i'r ysgol.<br>Rwy'n dechrau adnabod gwallau cyffredin. | Rwy'n gallu ysgrifennu paragraffau estynedig am amrywiaeth o bynciau anghyfarwydd ac arbenigol, efallai gyda chymorth golygyddol.<br>Rwy'n gallu adnabod rhai gwallau a'u cywiro. | Rwy'n gallu ysgrifennu'n estynedig ac yn safonol am faterion cymhleth.<br>Rwy'n gallu ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau.<br>Rwy'n gallu hunangywiro lle bo angen. |

*Lefel Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd/Cymraeg i Oedolion - Nodweddion y gweithlu Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY): Codau gallu yn y Gymraeg